



# Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Ymateb Cartrefi Cymunedol Cymru i Gam 1  
ymgyngoriad cyhoeddus y Pwyllgor  
Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a  
Chymunedau





1. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn falch i ymateb i Gam 1 ymgynghoriad cyhoeddus y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae ein ffocws yn yr ymateb yma ar Ran 5 y Bil: Cydweithio gan brif gynghorau.
2. Mae partneriaethau cryf, effeithlon rhwng cyrff cyhoeddus a'u partneriaid yn elfen hollbwysig yn yr ymateb a gaiff ei rannu i ddatrys yr argyfwng tai. Mae llawer o gymdeithasau tai ledled Cymru yn cyfrannu at amcanion a gaiff eu rhannu drwy drefniadau partneriaeth traws-sector presennol yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er nad oeddent yn wreiddiol yn aelodau statudol o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn 2019 newidiodd Llywodraeth Cymru reoliadau i wneud mewnbwn cymdeithasau tai yn ofynnol yn y strwythurau partneriaeth hyn, gan gydnabod rôl hanfodol cartrefi ansawdd da wrth gyfrannu at ddeilliannau llesiant poblogaethau lleol.
3. Er mwyn deall yn well brofiad cymdeithasau tai o drefniadau partneriaeth presennol, ac felly hysbysu cynlluniau'r dyfodol dan Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), cynhaliodd CHC arolwg o'n haelodau ym mis Medi 2019. Rydym wedi ystyried yr ymateb i'r adborth hwnnw a sut mae egwyddorion cyffredinol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymateb i neu'n rhoi cyfle ar gyfer gwella partneriaethau presennol. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar dair thema allweddol a gododd cymdeithasau tai: tryloywder gwneud penderfyniadau; ymgysylltu; a rhyngweithiad trefniadau partneriaeth presennol gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
4. Rydym yn fras yn croesawu'r bwriad i roi pwerau i awdurdodau lleol greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar draws ffiniau ar heriau cyffredin. Mae ein pryderon yn ymwneud â thawelwch cymharol y Bil ar drefniadau ar gyfer cydweithio traws-sector a'r canlyniadau niweidiol posibl.
5. Y pwyntiau allweddol a godwn yn ein hymateb ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor yw:
  - y ddarpariaeth gyfyngedig ar gyfer trefniadau atebolrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n ymddangos i wrthddweud ymrwymiad y Bil i wella mynediad at a chyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau lleol



- absenoldeb gofynion ar wyneb y Bil ar gyfer cydweithio gyda chyrff allanol tu hwnt i awdurdodau lleol pan mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu eu swyddogaethau.
- i ba raddau y gall sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gefnogi trefniadau cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a'u partneriaid, a sut y gellid cryfhau'r Bil i roi sicrwydd yn y cyswllt hwn.

## Tryloywder

6. Pan ofynnwyd iddynt am eu profiadau o drefniadau partneriaeth presennol, soniodd cymdeithasau tai am brofiadau cymysg am dryloywder gwneud penderfyniadau. Er y dywedodd rhai fod digon o eglurdeb, teimlai'r mwyafrif fod angen mwy o waith i'w gwneud yn glir pa gorff sy'n cymryd pa benderfyniadau a ble mae atebolrwydd. Mae *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Isddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn*<sup>1</sup>, Tachwedd 2019 yn dweud: 'Bydd y darpariaethau yn y Bil hwn yn symud cynghorau ymhellach tuag at fod yn fwy agored a thryloyw, yn unol â bywyd modern. Bydd aelodau'r cyhoedd yn medru deall mwy am y ffordd y mae cynghorau yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut y gallant gymryd mwy o ran yn y broses'.
7. Fodd bynnag, er bod darpariaethau'r Bil ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig sicrwydd am sut y caiff trefniadau gwaith rhwng awdurdodau lleol eu sefydlu, nodwn nad yw'r Bil fel y'i lluniwyd yn cynnig fawr o sicrwydd ar y trefniadau atebolrwydd ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig unwaith y cawsant eu sefydlu. Ymddengys bod hyn yn gwrthddweud ymrwymiad y Bil i wella mynediad i a chyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau lleol, ac ymddengys yn wall sylweddol.
8. Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a restrir yn Rhan 5, Pennod 4, adran 79 â buddiannau a chyfrifoldebau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn neilltuol. Byddem yn croesawu eglurdeb ar sut y rhagwelir y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhyngweithio gyda ac yn cefnogi cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a'u partneriaid er mwyn sicrhau nad yw'r strwythurau hyn yn llesteirio gwneud penderfyniadau tryloyw ac ymdrechion i gydweithio ar heriau a gaiff eu rhannu.

## Ymgysylltu

<sup>1</sup> Cyrchwyd 03/01/2020 yn

<http://senedd.assembly.wales/documents/s96017/Local%20Government%20and%20Elections%20Wales%20Bill%20Statement%20of%20Policy%20Intent.pdf>



9. Mae trefniadau gweithio a gwneud penderfyniadau tryloyw yn amod hanfodol ar gyfer y rhai sydd y tu allan i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymgysylltu a chyfrannu'n effeithlon at ddatrys heriau a gaiff eu rhannu. Croesewir ymrwymiadau'r Bil i ymgysylltu ar neu cyn cais i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fodd bynnag ymddengys nad yw'r rhestr yn cynnwys nifer o gyrff sydd â chyfraniad sylweddol i'w wneud i un neu fwy o swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn cynnwys:
- Cymdeithasau tai, sy'n darparu mwyafrif helaeth tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae cymdeithasau tai wedi'u seilio mewn cymunedau lleol, yn darparu swyddi lleol ac yn buddsoddi dros biliwn o bunnau bob blwyddyn, gyda 84c o bob punt yn cael eu cadw yng Nghymru
  - Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, sydd â chyfraniad hollbwysig i wella addysg a datblygu economaidd yn neilltuo
  - Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y mae 'r ffocws a rannant ar wella llesiant yn hollol gydnaws gyda phedair swyddogaeth arfaethedig y cyd-bwyllgorau corfforedig.
10. Tu hwnt i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ychydig o ddarpariaeth a wnaiff y Bil ar gyfer ymgysylltu allanol gyda'u gwaith cyfredol. Mae Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> y Bil yn awgrymu: 'Wrth lunio rheoliadau, ceir cyfle i ehangu aelodaeth is-bwyllgorau'r cyd-bwyllgorau corfforedig er mwyn cynnwys cyrff neu fudiadau gwasanaeth cyhoeddus eraill. Byddai hynny o bosibl yn gallu dod â manteision o ran ymgysylltu â phartneriaid ac esblygu strwythurau ar gyfer heddiw ac yfory fel y bargeinion dinesig / twf'.
11. Ymddengys yn wall sylweddol nad oes unrhyw ofynion ar wyneb y Bil ar gyfer cydweithio gyda chyrff allanol pan mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymarfer eu swyddogaethau. Ymddengys bod hyn yn tanseilio'r ymdrechion a'r cynnydd sylweddol a wnaed mewn blynyddoedd diweddar i hybu cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, a gefnogir gan ddeddfwriaeth, a byddem yn croesawu ystyriaeth y Pwyllgor i'r pwynt hwn.

## Rhyngweithio trefniadau partneriaeth presennol gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig

---

<sup>2</sup> Accessed 03/01/2020 at: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12877-em/pri-ld12877-em-e.pdf>



12. Ymddengys nad oes fawr o ddarpariaeth yn y drafft Bil i gefnogi neu wella cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus i ateb amcanion cyffredin. Mae hyn yn wahanol i'r ffocws penderfynol ar gydweithio a gefnogir gan ddeddfwriaeth megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).
13. Yn 2013, diwygiodd y Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Aseidiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019<sup>3</sup> i wneud, ymysg pethau eraill, gynrychiolaeth tai yn statudol, yn cynnwys o leiaf un cynrychiolydd tai o awdurdodau lleol ac o leiaf un cynrychiolydd tai o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roedd hyn i gydnabod rôl hanfodol cartrefi o ansawdd da wrth gyfrannu at ddeilliannau llesiant poblogaethau lleol.
14. Yn yr un modd, mae pob un o'r pedair swyddogaeth a restrir fel cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhannu'r nodwedd gyffredin nad ydynt yn heriau y gall awdurdodau lleol eu datrys ar eu pen eu hunain, ac y bydd angen trefniadau partneriaeth cryf i sicrhau'r buddion y mae Llywodraeth Cymru yn eu dymuno. Fel y nodwyd yn gynharach, mae swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a restrir yn Rhan 5, Pennod 4, adran 79, yn gorgyffwrdd yn sylweddol gyda chyfrifoldebau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn neilltuol, yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddem yn croesawu ystyriaeth benodol gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar i ba raddau y gall sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gefnogi trefniadau cydweithio ar draws cyrff cyhoeddus a'u partneriaid, a sut y gellid cryfhau'r Bil i roi sicrwydd yn y cyswllt hwn.
15. Diolch i chi am ystyried ein hymateb. Byddem yn falch i roi gwybodaeth ychwanegol os oes angen hynny. I drafod yr ymateb hwn ymhellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â Rhea Stevens, Pennaeth Polisi a Materion Allanol, yn [REDACTED]

---

<sup>3</sup> Cyrchwyd ar 06/01/2020 yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/760/made>